## PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Rhuthun, ar 24 Mawrth 2005 am 10.00 a.m.

## PRESENNOL

Y Cynghorwyr S. Thomas (Cadeirydd), J.R. Bartley, R.E. Barton, B. Blakeley (Arsylwr), J. Butterfield, J. Chamberlain-Jones, J.M. Davies, M.Ll. Davies (Arsylwr), S.A. Davies, G.C. Evans, H.H. Evans, I.M. German, M.A. German, K.N. Hawkins, N.J. Hughes, T.R. Hughes, N. Hugh-Jones, E.R. Jones, H. Jones, M.M. Jones, G.M. Kensler (Arsylwr), P.W. Owen, G.J. Pickering (Arsylwr), N.P. Roberts, D.A.J. Thomas, J. Thompson-Hill, M.A. Webster, C.H. Williams, E.W. Williams a R.Ll. Williams (cyrhaeddodd am 11.30 a.m.)

## HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol, Rheolwr Rheoli Datblygu, Uwch Swyddog Cefnogi (G. Butler), Swyddog Gweinyddol (Judith Williams) a Bryn Jones (Cyfieithydd).

Yn bresennol ar gyfer eitem Ysbyty Gogledd Cymru – Pensaer Cadwraeth a Rheolwr Polisi, Ymchwil a Gwybodaeth.

## DERBYNIWYD YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB ODDI WRTH

Y Cynghorwyr S. Frobisher, D. Hannam, T.K. Hodgson, D. Jones a R.Ll. Williams (cyrhaeddodd am 11.30 a.m.).

### 785 MATERION BRYS

Dim.

### 786 CEISIADAU AM GANIATÂD I DDATBLYGU

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn rhifo’r cynlluniau a gyflwynwyd i’w penderfynu gan y Pwyllgor.

***PENDERFYNWYD**:-*

*(a) cadarnhau argymhellion y Swyddogion, fel a gynhwyswyd yn yr adroddiad a gyflwynwyd, a rhoi caniatâd cynllunio neu wrthod caniatâd fel bo’n briodol o dan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Caniataedig Cyffredinol) 1995, Deddf Cynllunio a Digolledu 1991, Rheoliadau Hysbysebion Cynllunio Gwlad a Thref 1994 a/neu Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 i’r datblygiad arfaethedig yn y cynlluniau a ganlyn yn amodol ar yr amodau wedi’u rhifo yn yr atodlen isod:-*

(i) Caniatâd

| Cais Rhif | Disgrifiad |
|---|---|
| 03/2005/0032/PF | **Siaradwr yn erbyn – Mr. Ffoulkes-Jones**<br>Datganodd y Cynghorydd C H Williams fudd yn y cais a ganlyn a gadawodd y Siambr yn ystod ystyried y cais.<br>Adeiladu 14 o anheddau a garejis a llunio mynedfeydd newydd a lôn breifat a gosod gorsaf bwmpio carthion.<br>**Tir wrth ymyl 10 Ffordd Maesmawr, Llangollen**<br>CANIATÁU yn amodol ar i’r ymgeiswyr lofnodi cytundeb Adran 106 fel a argymhellir ym mharagraff 17 yr adroddiad ac amod 16 diwygiedig: |

16. Cyn dechrau adeiladu unrhyw anheddau rhaid i'r bibell garthffosiaeth gyhoeddus yn Ffordd Maesmawr gael ei thrwsio a/neu ei uwchraddio i safon a ystyrir yn dderbyniol gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol i ymdopi â draeniad dŵr budr o'r safle.

18/2004/1492/PF

**Siaradwr o blaid: Mr D Law**
Adeiladu storfa ffrâm ddur ar gyfer offer cysylltiedig â chynnal a chadw coedwigaeth/tir amaethyddol.
**Tir yn Green Covert, Llandyrnog, Dinbych.**
CANIATÁU.

21/2004/1627/PF

**Siaradwr o blaid: Mr D Clough**
Dymchwel 5 tŵr llety pedwar llawr a 10 adeilad unllawr ac adeiladu 17 o flociau llety deulawr a 2 lety unllawr gyda chladin pren, derbynfa, ffensys newydd, ailwampio Glan Alyn a gwaith cysylltiedig.
**Canolfan Addysg Awyr Agored Colomendy, Ffordd Rhuthun, Loggerheads, Llanferres, Yr Wyddgrug.**
CANIATÁU yn amodol ar amodau newydd:
Amodau ychwanegol ynghylch darpariaeth mannau parcio, yn cynnwys mannau parcio 'grasscrete'.

21/2004/1628/LB

**Siaradwr o blaid: Mr D Clough**
Newidiadau i Blas Colomendy i ddarparu llety ar y llawr cyntaf a chyfleusterau atodol ar y llawr gwaelod; newidiadau i'r coetsdy i ddarparu llety; dymchwel adeiladau'r cwrtil (cais Adeilad Rhestredig).
**Canolfan Addysg Awyr Agored Colomendy, Ffordd Rhuthun, Loggerheads, Llanferres, Yr Wyddgrug.**
CANIATÁU yn amodol ar gyfeirio'r cais i CADW ac amod newydd yn ymwneud â chadw'r cerrig crynion a deunyddiau traddodiadol eraill a gymryd o'r adeilad sy'n bodoli.

21/2005/0158/PF

**Siaradwr o blaid: Mr D Clough**
(Yn dilyn ystyried llythyr ychwanegol gan Gyd-bwyllgor Cynghori'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol).
Gwaith peirianegol yn gysylltiedig â chreu chwe phwll ar 0.3 hectar o dir pori yn gysylltiedig â mesurau lleddfu ar gyfer rhywogaethau gwarchodedig fel sy'n ofynnol gan ganiatâd cynllunio cyfeirnod 21/2004/0473/PF,
**Caeau i'r de orllewin o Glan Alyn, Canolfan Addysg Awyr Agored Colomendy, Ffordd Rhuthun, Loggerheads, Llanferres, Yr Wyddgrug.**
CANIATÁU yn amodol i amod 5 diwygiedig:
5. Caniatáu gwaith ar y pyllau cyn gwyro'r llwybr cyhoeddus.

44/2004/1660/PF

Datganodd y Cynghorydd Selwyn Thomas fudd yn y cais isod a gadawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth ar y cais. (Cadeiriwyd gan y Cynghorydd Lloyd Williams).
(Yn dilyn ystyried cynllun diwygiedig a ddosbarthwyd a dau lythyr sylwadau ychwanegol oddi wrth Cyngor Tref Rhuddlan a Chyngor Cefn Gwlad Cymru).
Newid defnydd i storio a thrwsio, cynnal a chadw ac adwerthu atodol carafanau a chartrefi modur i'r diwydiant ac i'r cyhoedd yn achlysurol (cais ôl-weithredol yn rhannol).
**Hen Ddepo Dŵr Cymru, Ffordd Abergele, Rhuddlan, Y Rhyl.**
CANIATÁU yn amodol ar amodau 4, 6, a 7 diwygiedig:

4. Dim gwaith trwsio carafanau ac eithrio mân waith cynnal a chadw i ddigwydd y tu allan i'r adeilad.
6. Dim gwerthiannau adwerthu o safle'r cais a dim carafanau ar werth i'w harddangos ar safle'r cais.
7. Dim gwaith i unrhyw adeilad ar y safle, yn cynnwys dymchwel, i'w wneud nes cynnal arolwg o'r adeiladau dan sylw i weld a oes ystlumod yn bresennol. Rhaid cyflwyno canlyniadau arolwg o'r fath, ynghyd ag unrhyw fesurau osgoi rhesymol i ymdrin â phresenoldeb ystlumod i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a derbyn cymeradwyaeth ysgrifenedig cyn i unrhyw waith o'r fath ddechrau.
RHESWM: Er budd unrhyw rywogaeth gwarchodedig ar y safle.
(Roedd y Cynghorydd Neville Hugh-Jones yn dymuno cofnodi ei fod wedi pleidleisio yn erbyn y cais).

**GWRTHOD YN ERBYN ARGYMHELLIAD Y SWYDDOG:**

01/2004/1445/PO

**Siaradwyr:**
**Yr erbyn – Dr G Thomas; A Duddle**
**O blaid – A Cassidy**
Adfer a dymchwel rhannol a newid defnydd cyn Ysbyty Gogledd Cymru at ddefnydd preswyl, busnes a chymunedol, a datblygu'r tir a'r adeiladau gerllaw at ddibenion preswyl, masnachol a pharcdir, yn cynnwys newid defnydd i B1 (Defnydd Busnes), creu ffordd fynedfa newydd a thirlunio (cais amlinellol).
**Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Ffordd Nantglyn, Dinbych.**
Yn dilyn cynnig i wrthod caniatâd cynllunio ac wedi i'r nifer ofynnol o Aelodau wneud cais am bleidlais wedi'i chofnodi, gofynnodd y Cadeirydd i'r Aelodau bleidleisio o blaid neu yn erbyn argymhelliad y swyddogion i roi caniatâd cynllunio.
Wedi pleidleisio o blaid (i roi caniatâd) - 12: Y Cynghorwyr Joan Butterfield, James Davies, Stuart Davies, Gwilym Evans, Isobel German, Ken Hawkins, Richard Jones, Peter Owen, David Thomas, Selwyn Thomas, Julian Thompson Hill a Mark Webster.
Wedi pleidleisio yn erbyn (i wrthod) – 13: Y Cynghorwyr Ray Bartley, Bob Barton, J Chamberlain Jones, Hugh Evans, Mike German, Neville Hughes, Rhys Hughes, Neville Hugh-Jones, Hugh Jones, Morfudd Jones, Nigel Roberts, Cefyn Williams ac Eryl Williams.
Gwnaed y penderfyniad, sy'n GROES i Argymhelliad y Swyddogion, am y rhesymau a ganlyn:
Penderfynwyd **GWRTHOD** ar sail swm y tai o'i gymharu â'r cyfleoedd cyflogaeth a'r effaith ar Ddinbych yn cynnwys y gwasanaethau, yr iaith a'r diwylliant. Oherwydd arwyddocad y datblygiad a'i oblygiadau rhaid adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Cynllunio nesaf gan awgrymu rhesymau am wrthod a'r goblygiadau gorfodaeth potensial.

03/2004/1427/PO

**Siaradwr yn erbyn – Mr M Law**
(Yn dilyn ystyried tri llythyr sylwadau ychwanegol gan Gyngor Tref Llangollen, Dŵr Cymru a'r Ymgeisydd).
Datblygu 0.47 hectar at ddibenion preswyl ac addasiadau i'r ffyrdd mynediad presennol i gerddwyr a cherbydau (cais amlinellol).
**Plot Arolwg Ordnans 634, Cae Hir, Fron Bache, Llangollen**.
Gwnaed y penderfyniad, sy'n GROES i Argymhelliad y Swyddog, am y rhesymau a ganlyn:
**GWRTHOD** am y rheswm a ganlyn:
Byddai'r cais yn arwain at ddatblygu tir heb ei ddynodi sy'n werthfawr i'r gymuned o ran ardal o wagle agored sy'n darparu tirwedd gweledol. Yn

ychwanegol byddai'r cynllun arfaethedig yn arwain at gynyddu symudiadau cerbydau ar rwydwaith ffyrdd sy'n annigonol yn ôl safonau modern. Felly byddai'r cynnig yn groes i Bolisïau GEN2 a TRA6 Cynllun Datblygu Unedol Sir Ddinbych.

15/2004/0842/PF

**Siaradwr yn erbyn – Glenys Roberts (Cynghorydd Cymuned Llanarmon)**
(Yn dilyn ystyried cynllun a ddosbarthwyd ac un llythyr sylwadau ychwanegol gan Adran Draeniad Tir y Sir).
Estyniad i gwrtil domestig (cais ôl-weithredol).
**Bracken Wood, Ffordd y Pentref, Eryrys, Yr Wyddgrug**.
GWRTHOD a chymeradwyo camau gweithredu gorfodaeth i adfer y tir i'w gyflwr blaenorol.
Gwnaed y penderfyniad, sy'n GROES i Argymhelliad y Swyddog, am y rheswm a ganlyn:
Byddai'r cais yn arwain at ardd domestig yn mynd ar ardal o dir wedi'i gwarchod fel gwagle agored sydd mewn Safle o Ddiddordeb Cadwraeth Natur ac Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd. Felly byddai'r cynllun arfaethedig yn gwrthdaro â Pholisïau ENV2, ENV5 a REC3 Cynllun Datblygu Unedol Sir Ddinbych, drwy ymlediad yr ardd a cholli'r ffin naturiol gwreiddiol a nodweddion draeniad Comin Hen Ardd ac yn gosod cynsail ar gyfer cynigion tebyg yn y dyfodol.

15/2004/1165/PF

**Siaradwr yn erbyn – Glenys Roberts (Cynghorydd Cymuned Llanarmon)**
(Yn dilyn ystyried cynllun a ddosbarthwyd ac un llythyr sylwadau ychwanegol gan Swyddog Cefn Gwlad yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol).
Estyniad i gwrtil domestig (cais ôl-weithredol).
**Ash Grove, Ffordd Eryrys, Mynydd Du, Yr Wyddgrug.**
GWRTHOD a chymeradwyo camau gweithredu gorfodaeth i adfer y tir i'w gyflwr blaenorol.
Gwnaed y penderfyniad, sy'n GROES i Argymhelliad y Swyddog, am y rheswm a ganlyn:
Byddai'r cais yn arwain at ymlediad gardd domestig ar ardal o dir wedi'i gwarchod fel gwagle agored sydd mewn Safle o Ddiddordeb Cadwraeth Natur ac ar dir a ddefnyddir fel rhan o Gomin Hen Ardd. Felly byddai'r cynllun arfaethedig yn gwrthdaro â Pholisi ENV2 Cynllun Datblygu Unedol Sir Ddinbych, ac yn tynnu oddi wrth amwynder cyffredinol y gomin ac yn gosod cynsail ar gyfer cynigion tebyg yn y dyfodol.

**GWRTHOD**

47/2004/1111/PF

**Siaradwr o blaid: Mr D Middleton**
Datganodd y Cynghorydd Selwyn Thomas fudd yn y cais isod a gadawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth ar y cais. (Cadeiriwyd gan y Cynghorydd Lloyd Williams).
(Yn dilyn ystyried llythyr sylwadau ychwanegol gan Asiant yr Ymgeisydd).
Cynnig arfaethedig i leoli 41 o garafanau gwyliau sefydlog yn lle 35 o garafanau teithiol ac adeiladu 6 chalet traddodiadol (cymeradwywyd dan gyfeirnod 47/2001/1000/PF) a gosod tanc carthion newydd.
**Oakleigh House Park, Ffordd y Waen, Rhuddlan, Y Rhyl**.
GWRTHOD.

**YMWELIAD SAFLE**

11/2004/0642/PF

**Siaradwr yn erbyn: Mr A Studdings**
(Yn dilyn ystyried llythyr sylwadau ychwanegol oddi wrth Asiantaeth yr Amgylchedd).
Adeiladu adeilad amaethydol ar gyfer da byw a storio porthiant.
**Tir a adwaenir fel Graig Wen, Clocaenog, Rhuthun.**
YMWELIAD SAFLE – i ystyried y goblygiadau draeniad.

Gorffennodd y cyfarfod am ginio am 1.15 p.m.

**PWYLLGOR CYNLLUNIO WEDI AILYMGYNNULL**

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Rhuthun ar 24 Mawrth 2005, wedi ailymgynnul am 1.45 p.m.

**PRESENNOL**

Y Cynghorwyr S. Thomas (Cadeirydd), J.R. Bartley, R.E. Barton, B. Blakeley (Arsylwr), J. Butterfield, J. Chamberlain-Jones, J.M. Davies, G.C. Evans, H.H. Evans, I.M. German, M.A. German, K.N. Hawkins, N.J. Hughes, N. Hugh-Jones, M.M. Jones, P.W. Owen, D.A.J. Thomas, M.A. Webster, C.H. Williams, E.W. Williams a R.Ll. Williams.

**HEFYD YN BRESENNOL**

Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol, Rheolwr Rheoli Datblygu, Uwch Swyddog Cynllunio (D. Beggan), Uwch Swyddog Cefnogi (G. Butler), Swyddog Gweinyddol (Judith Williams) a Bryn Jones (Cyfieithydd).

**DERBYNIWYD YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB ODDI WRTH**

Y Cynghorwyr S. Davies, S. Frobisher, D. Hannam, T.K. Hodgson a D. Jones.

(i) Caniatâd

| Cais Rhif | Disgrifiad |
|---|---|
| 15/2004/1615/PF | Datganodd y Cynghorydd Selwyn Thomas fudd yn y cais isod a gadawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth ar y cais. Cadeiriwyd gan y Cynghorydd R Ll Williams.<br>Amrywio Amod Rhif 1 ar ganiatâd cynllunio cyfeirnod 15/46/97.PS i ddarparu preswylio am 10½ mis rhwng 1 Mawrth yn unrhyw un flwyddyn a 14 Ionawr yn y flwyddyn ganlynol.<br>**Parc Farm Caravans, Ffordd Graianrhyd, Llanarmon yn Iâl, Yr Wyddgrug**<br>CANIATÁU |
| 19/2004/1629/PF | Newid a rhoi estyniad ar adeilad allanol i ffurfio annedd a llunio ffordd fynedfa newydd i gerbydau.<br>**Rhewl Wen, Llanelidan, Rhuthun**<br>CANIATÁU |
| 28/2004/1429/PF | Adeiladu 2 annedd a llunio ffordd fynedfa newydd i gerbydau a cherddwyr.<br>**Tir y tu ôl i Bryn Teg, Parc y Llan, Henllan, Dinbych**<br>CANIATÁU |
| 28/2005/0031/PO | (Yn dilyn ystyried cynllun diwygiedig a ddosbarthwyd ac 1 llythyr sylwadau ychwanegol oddi wrth Gyngor Cymuned Henllan).<br>Datblygu 0.1 hectar o dir drwy adeiladu 2 annedd a llunio ffordd fynedfa newydd i gerbydau (cais amlinellol).<br>**Tir yn Ffordd Bryn y Garn, Henllan, Dinbych**<br>CANIATÁU<br>Holodd y Cynghorwyr a yw potensial y safle yn cael ei uchafu i'r eithaf a gofynnwyd i'r swyddogion ymchwilio i'r posibilrwydd o roi rhagor o anheddau ar y safle. |

45/2004/1376/PO

(Yn dilyn ystyried cywiriad i'r adroddiad ynghylch cyfran yr unedau fforddiadwy).
Datblygu 17.68 hectar ar gyfer datblygiad preswyl gyda gwagle agored, ysgol a chanolfan gymuned gysylltiedig a ffordd fynedfa (cais amlinellol).
**Tir yn Ne Ddwyrain y Rhyl rhwng Bro Deg a Ffordd Dyserth, Y Rhyl**
CANIATÁU
Yn amodol ar Gytundeb Adran 106 ar wagle agored, tai fforddiadwy, darparu ardaloedd cadwraeth natur oddi ar y safle a'r amodau diwygiedig / ychwanegol:
6. Dileu amod rhif 6 presennol ac yna ailrifo.
12. Cynnwys gwaharddiadau i draffig adeiladwaith yn cynnwys ar hyd Rhodfa Maengwyn
18. Darparu cyfleusterau ailgylchu ar y safle.
(Roedd y Cynghorwyr R E Barton, J Chamberlain-Jones a P Owen yn dymuno cael cofnodi eu bod wedi pleidleisio yn erbyn y cais).

45/2004/1691/PF

Datganodd y Cynghorydd Selwyn Thomas fudd yn y cais isod a gadawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth ar y cais. (Cadeiriwyd gan y Cynghorydd Lloyd Williams).
Disgrifiad diwygiedig – rhoi 13 o garafanau preswyl yn lle chalets a thirlunio a goleuo cysylltiedig.
**Stafford Park, 108 Ffordd y Morfa, Y Rhyl**
CANIATÁU
Yn amodol ar amodau ychwanegol rhif 8 a 9:
8. Cadw'r coed
9. Cyfyngu ar nifer yr unedau ar y safle (ni chaiff oresgyn 13).

47/2004/1013/PC

Cadw garej triphlyg, bloc cenel cysylltiadau, giatiau mynediad, pileri a cholofnau camerâu teledu cylch cyfyngedig. Parhau i ddefnyddio'r tir fel estyniad i gwrtil preswyl ar gyfer lôn estynedig a mynedfa ychwanegol i gerbydau (cais ôl-weithredol).
**Toledo Cottage, Rhuallt, Llanelwy**
CANIATÁU
(Roedd y Cynghorwyr R E Barton a R.Ll. Williams yn dymuno cael cofnodi eu bod wedi pleidleisio yn erbyn y cais).

47/2004/1180/PF

(Yn dilyn ystyried llythyr sylwadau ychwanegol gan Archeolegydd y Sir).
Adeiladu adeilad amaethyddol a thwnelau poly ar gyfer busnes garddwriaeth a llunio ffordd fynedfa newydd i gerbydau.
**Caeau Rhif 2717, 2800, 3113 Waen, Llanelwy**
CANIATÁU
Yn amodol ar yr amod ychwanegol isod:
Ni chaniateir adwerthu cynnyrch o'r safle.
Rheswm – er budd cymeriad gwledig yr ardal a diogelwch priffyrdd.

**GWRTHOD**

23/2004/0940/PF

Newid defnydd adeilad amaethyddol presennol yn storfa a man dosbarthu (cais ôl-weithredol).
**Adeiladau allanol ym Mryn Eglur, Llanrhaeadr, Dinbych**
GWRTHOD a chymeradwyo camau gweithredu gorfodaeth i'w gwneud yn ofynnol rhoi'r gorau i'r defnydd hwn a chael gwared o'r holl eitemau'n gysylltiedig â'r defnydd hwn oddi ar y safle.

**GWRTHOD YN ERBYN ARGYMHELLIAD Y SWYDDOG:**

43/2004/1513/PO

Datblygu 0.14 hectar o dir drwy adeiladu annedd sengl.
**Tir yn (rhan o ardd) 166 Ffordd Fictoria, Prestatyn.**
GWRTHOD
Gwnaed y penderfyniad, sy'n GROES i Argymhelliad y Swyddog, am y rheswm a ganlyn:
Byddai'r cynllun arfaethedig yn arwain at orddatblygu'r safle gyda gwagle annigonol o amgylch yr annedd a phellter gwahanu cyfyngedig rhwng eiddo gerllaw a'u gerddi. Felly byddai'r cynllun arfaethedig yn andwyol i amwynder gweledol ac amwynder preswyl y rhai sy'n byw mewn anheddau cyfagos a'r rhai fyddai'n byw yn yr annedd arfaethedig yn y dyfodol yn groes i faen prawf (v) Polisi GEN6 Cynllun Datblygu Unedol Sir Ddinbych.

45/2004/1591/PF

(Yn dilyn ystyried un llythyr sylwadau ychwanegol oddi wrth Mrs G C Davies, 151 Ffordd y Dyffryn, Y Rhyl).
Newid defnydd annedd presennol i greu estyniad i feithrinfa sy'n bodoli eisoes (Dosbarth D1), yn cynnwys estyniad unllawr i'r cefn ac addasiadau i'r ffordd fynedfa i gerbydau/ardal parcio.
**Sams Learning Tree, 157/159 Ffordd y Dyffryn, Y Rhyl.**
GWRTHOD
Gwnaed y penderfyniad, sy'n GROES i Argymhelliad y Swyddog, am y rheswm a ganlyn:
Byddai'r cynllun arfaethedig yn arwain at feithrinfa plant ar raddfa fawr gyda hyd at 90 o blant yn bresennol ar y safle ar unrhyw un adeg. Byddai hyn yn arwain at gynnydd mewn gweithgarwch a tharfiad ar y safle ac yn amharu ar amwynder preswyl preswylwyr cyfagos ac yn groes i faen prawf (v) Polisi GEN6 Cynllun Datblygu Unedol Sir Ddinbych ac, oherwydd natur teras yr eiddo, yn gwrthdaro â'r cyngor yn Nodyn Canllawiau Cynllunio Atodol Rhif 3 – Gofal Dydd i Blant.

45/2004/0083/PF

Newid defnydd tir ar gyfer sotrio cynwysyddion storio a llunio ffordd fynedfa newydd i gerbydau.
**Tir wrth ymyl y Bont H rhwng Kwik Save a'r Rheilffordd, Ffordd y Morfa, Y Rhyl**
GWRTHOD
Gwnaed y penderfyniad, sy'n GROES i Argymhelliad y Swyddog, am y rhesymau a ganlyn:
1. Byddai defnydd arfaethedig y tir i storio cynwysyddion yn arwain at ymddangosiad safon gwael y safle sydd mewn lle amlwg wrth ymyl y rheilffordd a'r bont H. Felly byddai'r cynllun arfaethedig yn groesi i feini prawf (ii) a (iii) o Bolisi GEN6 Cynllun Datblygu Unedol Sir Ddinbych.
2. Mae'r safle wedi'i ddynodi ar gyfer datblygiad cyflogaeth dan Bolisi EMP1 Cynllun Datblygu Unedol Sir Ddinbych. Byddai'r cynllun arfaethedig yn arwain at gynhyrchu lefel isel o gyflogaeth a defnydd arfaethedig a fyddai'n gwrthdaro â bwriadau Polisi EMP1 a dynodiad penodol y safle.

**YMWELIADAU SAFLE**

42/2004/1068/PR — Manylion am leoliad, dyluniad ac ymddangosiad allanol 3 annedd a gyflwynwyd yn unol ag Amod Rhif 1 caniatâd cynllunio amlinellol cyfeirnod 42/2003/1494/PO.
**Tir wrth ymyl Rhif 19 Rhodfa Gofer, Dyserth, Y Rhyl**
YMWELIAD SAFLE – i ystyried dwysder y datblygu yn yr ardal.

43/2004/0496/PF — Adeiladu 2 annedd sengl gyda garej yr un.
**Tir ym Mhlotiau 8 a 9 Rhodfa Melyd, Prestatyn**
YMWELIAD SAFLE – i ystyried dwysder y datblygiad.

43/2004/0581/PF — Adeiladu 2 fyngalo pâr gyda garej yr un.
**Plotiau 34 a 35 Rhodfa Melyd, Prestatyn**
YMWELIAD SAFLE – i ystyried dwysder y datblygu yn yr ardal.

**GOHIRIO**

45/2004/1468/PF — (Yn dilyn ystyried llythyr sylwadau ychwanegol gan yr Ymgeisydd). Newid defnydd i ganolfan ddydd preswyl/canolfan hyfforddiant a fflat preswyl.
**5 Stryd yr Abaty, Y Rhyl**
GOHIRIO ar gyfer rhagor o ymgynghori gyda grwpiau defnyddwyr.

**787 CADARNHAU GORCHYMYN CADW COED TPO 3/2004**
**CAE GLEBE, LLANFAIR DC, GER RHUTHUN**

Cyflwynwyd adroddiad ysgrifenedig y Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn ceisio cadarnhad i Orchymyn Cadw Coed 3/2004.

***PENDERFYNWYD*** *cadarnhau'r Gorchymyn Cadw Coed heb ei addasu.*

**788 MATERION GORFODAETH**

ENF/2005/26, ENF2005/27, ENF2005/28 - (Yn dilyn ystyried cynllun ychwanegol). Newid defnydd tir amaethyddol at ddefnydd domestig.
**22, 26 a 24 Trem y Coed, Clawddnewydd**

***PENDERFYNWYD*** *gwahodd ceisiadau cynllunio gan y 3 preswylydd (neu un cais unigol) er mwyn ystyried gosod amodau yn ymwneud â darparu gwrych a chael gwared o hawliau datblygu caniataedig.*

*Os na dderbynnir gwahoddiad ymhen 2 fis yna adrodd yn ôl i'r Pwyllgor i ddechrau camau gweithredu gorfodaeth.*

ENF/2005/29 – Ffens dros 1m o uchder wrth ymyl priffordd mewn Ardal Gadwraeth
**9 Stryd y Castell, Rhuddlan**

Awdurdodi'r gweithredu a ganlyn:-

(i) cyflwyno Rhybudd Gorfodi yn ei gwneud yn ofynnol cael gwared o'r ffens neu leihau ei uchder i 1m neu lai

(ii) dechrau achos llys, neu gamau gweithredu eraill priodol, yn erbyn unrhyw unigolyn/ion y cyflwynwyd Rhybudd Gorfodi iddynt petai ef/hi/nhw yn methu â chydymffurfio â Gofynion y Rhybudd.

**789 AWDURDODIADAU GORFODAETH Y PWYLLGOR ADOLYGU ACHOSION – MAWRTH 2005**

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd ei adroddiad ysgrifenedig (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn nodi manylion am Achosion Gorfodaeth yr adroddwyd amdanynt wrth y Pwyllgor yn flaenorol, gan roi diweddariad ar y cynnydd a wnaed.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad er gwybodaeth.*

**790 DYDDIAD YMWELIADAU SAFLE**

Cyflwynwyd adroddiad ysgrifenedig y Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn ceisio cymeradwyaeth i gynnal ymweliadau safle yn deillio o eitem agenda rhif 2 ddydd Gwener, 1 Ebrill 2005, ac yn cynghori am aelodaeth y Panel Ymweliadau Safle.

***PENDERFYNWYD*** *cynnal yr ymweliadau safle a gymeradwywyd ddydd Gwener, 1 Ebrill 2005, yn dechrau am 9.00 a.m.*

*Penderfynodd yr Aelodau i drefnu ymweliad safle â Drivers Garage, Prestatyn hefyd. Gwahoddiad i holl Aelodau'r Pwyllgor fynychu'r ymweliad safle hwn.*

**791 RHESTR CEISIADAU YR YMDRINIWYD Â HWY DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd ei adroddiad ysgrifenedig (a ddosbarthwyd yn flaenorol) am geisiadau am Ganiatâd Cynllunio y penderfynwyd arnynt dan awdurdod dirprwyedig rhwng 1 Chwefror 2005 a 28 Chwefror 2005.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad.*

Gorffennodd y cyfarfod am 3.30 p.m.

********